***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1988

## Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

*Cymhwyso adran 119 i gategorïau penodol o blant*

**Plant dan gadwad y mae adran 119 yn gymwys iddynt gydag addasiadau: plant dan gadwad o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984**

**15.**—(1) Mae adran 119 o'r Ddeddf yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiad a bennir ym mharagraff (2) mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, sydd rhwng 12 ac 16 mlwydd oed ac sydd dan gadwad o dan adran 38(6) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(**1**) (plant dan gadwad).

(2) Yr addasiad, ym mharagraff (1), yw y rhoddir, yn lle'r geiriau o "onid yw'n ymddangos" hyd at ddiwedd is-adran (1), y canlynol—

"onid yw'n ymddangos bod unrhyw lety arall ac eithrio llety a ddarperir at y diben o gyfyngu ar ryddid yn amhriodol oherwydd—

(a) bod y plentyn yn debygol o ddianc o'r cyfryw lety arall, neu

(b) bod y plentyn yn debygol o anafu ei hun neu bersonau eraill os cedwir y plentyn mewn unrhyw gyfryw lety arall."

(**1**) 1984 p. 60